

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 29 Mehefin 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Adroddiad Cyllid (Mai 2021/22 – gan gynnwys Llyfr Crynhoi'r Gyllideb 2021/22)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arni ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2021/22.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys £250,000 yn y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2022/23 er mwyn bodloni'r gofyniad arian cyfatebol o 10% ar gyfer y cynnig Cronfa Codi'r Gwastad – De Clwyd. (Gweler Adran 6.9)

4. Manylion yr Adroddiad

Mae Llyfr Crynhoi'r Gyllideb 2021/22 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n darparu manylion cyllideb refeniw'r Cyngor, gan gynnwys crynodebau adrannol, diweddariad ar y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2021/22 fel y nodwyd yn Atodiad 2. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £216.818miliwn (£208.302miliwn yn 20/21). Rhagwelir y bydd gorwariant o £0.708miliwn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Amlinellir y naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6.

Roedd cyllideb 2021/22 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £4.448 miliwn fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.462miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£690,000) wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Mae arbedion o £0.781miliwn hefyd wedi eu nodi sy'n newid darpariaeth gwasanaeth mewn ffordd a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr.
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion.

Tybir bod y cynyddiadau ffioedd a chostau a'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni. Bydd yr arbedion o £0.781 miliwn yn cael eu monitro'n agos yn y flwyddyn ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ar naratifau gwasanaethau sylweddol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

6.1 Effaith y Coronafeirws – Mae'r strategaeth o weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau dros £23 miliwn o gymorth ariannol uniongyrchol y llynedd. Dylai cyhoeddiadau ariannu diweddar sicrhau fod pwysau Covid yn 2020/21 yn cael eu diogelu, wrth nodi hefyd y bydd cyllid yn parhau i fod ar gael, os oes angen, am o leiaf y 6 mis cyntaf o'r flwyddyn nesaf. Cadarnhawyd y bydd y system hawliadau gwariant misol a hawliadau colled incwm chwarterol yn parhau. Hyd yma, mae dau hawliad gwariant wedi cael eu cyflwyno ar gyfer mis Ebrill a mis Mai, gyda chyfanswm o £581,000.

6.2 Cyllidebau Corfforaethol – Er y rhagwelir ar hyn o bryd y byddwn yn mantoli'r gyllideb, mae'n anodd mesur y risgiau canlynol gan ei bod yn gynnar yn y flwyddyn:

- Effaith barhaus Covid ar yr Incwm o'r Dreth Gyngor
- Yr effaith barhaus ar y Cynllun Gostyngiadau i Dreth y Cyngor
- Setliadau tâl ar gyfer 2021/22

Bydd y rhain yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf.

6.3 Addysg a Gwasanaethau Plant – Y rhagdybiaeth alldro presennol yw gorwariant o £708,000. Mae'r Pwysau hwn yn ymwneud â lleoliadau Maethu Annibynnol a phreswyl cost uchel. Rhagwelir mai'r pwysau cyffredinol ar leoliadau preswyl yw £970,000 a'r pwysau ar faethu annibynnol yw £200,000. Caiff rhai o'r meysydd pwysau eu gosod yn erbyn tanwariant ar gyllidebau staffio yn sgil swyddi gwag a staff nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynllun pensiwn. Mae'r gorwariant a ragwelir yn tybio y byddwn yn derbyn £312,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru eleni, fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

6.4 Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol – Er bod pwysau ychwanegol o £2.4 miliwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2021/22, mae'r maes gwasanaeth hwn yn parhau i beri risg. Mae digartrefedd yn arbennig yn wynebu pwysau sylweddol. Er hynny, rydym ar hyn o bryd yn gobeithio y byddwn yn gallu cadw'r pwysau hwn o fewn y gyllideb a gynyddwyd. Mae gweithgor y Tîm Arwain Strategol sy'n gyfrifol am nodi a chynnig

darpariaeth fewnol a fydd yn gwella lefel y gwasanaeth a lleihau costau i'r dyfodol. Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn amlinellu'r gwaith hwn i Briffio'r Cabinet ar 10 Mai.

6.5 Ysgolion – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £2.5 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Y cyfnod monitro cyntaf ar gyfer ysgolion yw diwedd mis Mehefin pan fyddant yn cyflwyno adroddiadau monitro manwl. Y balansau ysgol i'w cario ymlaen i 2021/22 yw balans credyd net o £5.670 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o £7.058 miliwn yn y diffyg sydd wedi'i ddwyn ymlaen i 2020/21 o £1.388 miliwn. Mae'r datblygiad ers y llynedd yn ymwneud yn bennaf â chyllid untro a dderbyniwyd ac arbedion untro a wnaethpwyd gan fod ysgolion wedi cau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac, yn arbennig, y nifer o grantiau mawr a dderbyniwyd ddiwedd mis Mawrth. Er y croesawir hyn yn fawr, dylid cadw natur untro'r cyllid hwn mewn cof.

6.6 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £653,000, sy'n cyd-fynd â'r gyllideb a gymeradwywyd. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £1.006 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Gyllideb Gyfalaf o £20.7 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£6.7 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£14 miliwn).

6.7 - Rheoli'r Trysorlys - Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £233.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.96%. Roedd y balansau buddsoddi yn £18.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.01%.

6.8 Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf y Cyngor** ynghlwm yn Atodiad 4. Swm y cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yw £52.85 miliwn, ac mae'r gwariant hyd yma'n £2.08 miliwn. Mae Atodiad 5 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

6.9 Fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 25 Mai, 2021, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democraidd a'r Arweinydd, i gytuno ar gais i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer Etholaeth De Clwyd Fel

rhan o'r cynnig, sydd wedi cael ei gyflwyno, mae gofyn am arian cyfatebol o 10% gwerth £423,181 (cyfanswm y cynnig ar gyfer prosiectau CSDd yw £4.2 miliwn). Mae gwerth £173,181 o gyllid allanol wedi'i nodi, gan adael balans o £250,000 i'w ariannu. Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnwys cyllid ar gyfer hyn yng Nghynllun Cyfalaf 2022/23.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Cafodd Aseidiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ei gyflwyno i'r Cyngor ar 26 Ionawr.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y lefel o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Ond er hynny mae cynlluniau mewn grym i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses gyllidebol 2022/23.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rydym yn falch ein bod yn dechrau'r flwyddyn ariannol hon mewn sefyllfa well nag yr oeddem wedi'i ofni diolch i'r dull o weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, a dylid cofio bod CSDd wedi derbyn dros £23 miliwn o gyllid uniongyrchol gan LIC i helpu'r Cyngor. Gobeithir y bydd y cymorth ychwanegol a nodwyd am y 6 mis cyntaf o 2021/22 yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynllunio i'r dyfodol mewn modd cadarnhaol. Mae gwaith monitro cynnar wedi dangos pwysau yn y meysydd arferol; Digartrefedd a Gwasanaethau Plant. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir y bydd yr angen yn parhau. Mae pwysau cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol yn ariannol ac mae ansicrwydd mewn perthynas ag effaith barhaus Covid-19, Brexit a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus yr ymateb Covid. Er bod y rhagolygon ariannol yn ymddangos yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach ac mae proses gyllideb 3/5 blynedd gadarn wedi cael ei chymeradwyo gan y Tîm Arwain Strategol, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet ac yn cael ei chraffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.